

Deg awgrym ar gyfer llenwi'r ffurflen Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) i'ch plentyn

Mae llenwi'r ffurflen Lwfans Byw i'r Anabl ('y Lwfans' neu DLA) ar gyfer eich plentyn yn gallu cymryd llawer o'ch amser a'ch egni. Mae'n gallu bod yn straen hefyd oherwydd eich bod chi'n canolbwyntio ar y pethau nad yw eich plentyn yn gallu eu gwneud.

Ar ôl i chi orffen llenwi'r ffurflen, cofiwch roi gwobr i'ch hun!

- Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'DLA form for children'. Ond mae'n well eu ffonio ar 0800 121 4600 a gofyn am i'r ffurflen gael ei phostio atoch. Yna, bydd y ffurflen yn cael ei stampio gyda dyddiad eich galwad ffôn, a bydd unrhyw Lwfans a gewch chi yn cael ei dalu o'r dyddiad hwnnw. Mae hyn yn ddefnyddiol oherwydd bod y ffurflen yn hir a gall gymryd amser i'w llenwi.
- Mae'r ffurflen yn hir ac yn gofyn am lawer o wybodaeth. Cymerwch eich amser a pheidiwch â cheisio ei lenwi i gyd ar unwaith.
- Gofynnwch am help i lenwi'r ffurflen gan asiantaeth sy'n rhoi cyngor. Ffoniwch linell gymorth Contact ar 0808 808 3555 i ddod o hyd i rywun yn eich ardal chi all helpu.
- Cadwch ddyddiadur o'r gofal sydd ei angen ar eich plentyn yn ystod y dydd a'r nos am wythnos cyn i chi fynd ati i lenwi'r ffurflen. Bydd hyn yn ddefnyddiol pan fyddwch chi'n llenwi'r ffurflen a gallwch ei ddefnyddio fel tystiolaeth.
- Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl am anghenion gofal a symudedd ychwanegol eich plentyn. Cofiwch gynnwys sut mae eich plentyn ar ddiwrnod gwael i wneud yn siŵr bod gan bwy bynnag sy'n darllen eich cais syniad gwirioneddol o'r help ychwanegol sydd ei angen ar eich plentyn. Gofynnwch i chi'ch hun – ydych chi wedi cynnwys digon o fanylion i berswadio rhywun sydd heb gwrdd â'ch plentyn?
- Os yw cyflwr eich plentyn yn amrywio neu'n newid o ddydd i ddydd, defnyddiwch y termau 'diwrnodau gwael' a 'diwrnodau gwell' i ddisgrifio'r newidiadau hyn. Gall defnyddio'r gair 'normal' awgrymu nad oes angen unrhyw help ychwanegol ar eich plentyn ar y dyddiau hynny. Cofiwch gynnwys sut mae eich plentyn ar ddiwrnod gwael i wneud yn siŵr bod gan bwy bynnag sy'n darllen eich cais syniad gwirioneddol o'r help ychwanegol sydd ei angen ar eich plentyn.

- Ceisiwch ddefnyddio enghreifftiau o fywyd go iawn ac anecdotau i ddisgrifio anghenion eich plentyn lle bynnag y bo modd. Peidiwch â dibynnu ar y bocsys ticio yn unig.
- Rhowch dystiolaeth gyda'ch ffurflen fel adroddiadau meddygol neu seicolegol, asesiadau iaith a lleferydd a chynllun Addysg, Iechyd a Gofal os oes gennych un – unrhyw beth sy'n cefnogi'r hyn rydych chi wedi'i ddweud ar y ffurflen DLA.
- Darllenwch y ffurflen yn ofalus cyn i chi ei hanfon yn ôl. Ydych chi wedi anfon digon o wybodaeth? Ydych chi wedi ateb yr holl gwestiynau perthnasol? A yw eich manylion cyswllt yn gywir? Ydych chi wedi methu unrhyw beth?
- Cadwch gopi o'r ffurflen ac unrhyw dystiolaeth ategol ar gyfer eich cofnodion.

Am fwy o awgrymiadau ewch i wefan Contact: www.contact.org.uk/dla